


Agenda Hawdd ei Ddeall

Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd Dysgu

Mehefin

27

Cyfarfod ar ddydd Mawrth 27 Mehefin 2023




Amser: **12.15pm i 1.15pm**



Lle: **Ty Hywel, Bae Caerdydd ac ar-lein drwy Zoom.**



Os ydych chi angen y ddolen i ymuno gyda'r cyfarfod e-bostiwch samantha.williams@ldw.org.uk.



Agenda

Am beth y byddwn ni yn siarad yn ein cyfarfod

Amser

Beth a phwy



1. Croeso a chyflwyniadau

Mae Sioned Williams yn Aelod o'r Senedd ac yn Gadeirydd y grŵp.

Mae Sara Pickard yn gweithio i Mencap Cymru ac yn gyd-Ysgrifennydd y grŵp.

Fe fydd Sioned a Sara yn croesawu pawb i'r cyfarfod.



2. Fideo Sara

Sioned a Sara fydd yn cyflwyno'r fideo wnaeth Sara ar gyfer Wythnos Anabledd Dysgu.



3. Problemau gyda chael tocynnau bws newydd

Fe fydd Mark Jones, gwirfoddolwr Trafnidiaeth i Ffrindiau Gigiau Cymru, a Simon Richards, Cadeirydd Pobl yn Gyntaf Caerdydd, yn siarad am y problemau y mae rhai pobl ag anabledd dysgu yn eu cael wrth gael tocynnau bws newydd.



4. Cwestiynau

Fe fydd amser i bobl ofyn cwestiynau am y cyflwyniadau.



5. Canllawiau ar gefnogi rhieni ag anabledd dysgu

Fe fydd Stacey Rees o Brifysgol De Cymru yn siarad am sut y maen nhw wedi gwneud yr ymchwil ar gyfer y canllawiau newydd ar gefnogi rhieni ag anabledd dysgu i Lywodraeth Cymru.



6. Cwestiynau

Fe fydd amser i bobl ofyn cwestiynau am y cyflwyniad.



7. Unrhyw fater a syniadau eraill ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol

Fe fydd y Cadeirydd yn siarad am unrhyw beth arall sy'n bwysig.

Fe fyddan nhw hefyd yn siarad am syniadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.



8. Cau

Fe fydd y cadeirydd yn cau'r cyfarfod.

Fe fydd y cyfarfod yn gorffen am 1.15pm.